**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 22 Tachwedd 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **7 Rhagfyr 2016** |

## PWNC

Eitem 6 :CYLLIDEB REFENIW 2016/17 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2016)

## PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2016) o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gan ofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.

- Trosglwyddo (£135k) o gyllideb gorfforaethol i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i gyllido'r costau ychwanegol o ganlyniad i'r newid yn ymwneud â chodi tâl am y chwe wythnos gyntaf o ofal preswyl a nyrsio.
- Caniatáu i'r Adran Rheoleiddio ddefnyddio (£200k) o'u tanwariant i gyllido cynlluniau penodol i wella cyflwr meysydd parcio.
- Trosglwyddo (£300k) o'r Adran Rheoleiddio i'r Gronfa Ddiswyddo Gorfforaethol er mwyn cynorthwyo efo'r newidiadau sydd o'n blaenau fel Cyngor.
- Cynaeafu (£300k) o'r casgliad ffafriol Treth y Cyngor, a (£290k) o danwariant Budd-daliadau, ynghyd â (£200k) o'r tanwariant a gynhwysir o dan 'Eraill', a'i drosglwyddo fel a ganlyn:
    - defnyddio (£20k) o'r tanwariant fel cyfraniad ariannol i Bwll Nofio annibynnol Harlech er mwyn gwneud taliad pontio un tro ar gyfer y cyfnod hyd at 31 o Fawrth 2017, yn unol â phenderfyniad y Cabinet ar y 4 o Hydref 2016.
    - defnyddio (£135k) i gyllido oblygiadau ariannol newid yn y Ddeddfwriaeth Gofal 2014 gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.
    - y gweddill o (£635k) i'w neilltuo i Gronfa Trawsffurfio.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 22 Tachwedd 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **7 Rhagfyr 2016** |

## PWNC

Eitem 7 :RHAGLEN GYFALAF 2016/17 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2016)

## PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2016) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- cynnydd o £1.367m mewn defnydd o fenthyca arall (gan gynnwys benthyca heb gefnogaeth)
- lleihad o £1.174m mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd o £0.035m mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- cynnydd o £0.938m mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 22 Tachwedd 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **7 Rhagfyr 2016** |

**PWNC**

Eitem 8 :PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG HIR DYMOR AC AIL GARTREFI

**PENDERFYNIAD**

Argymell i'r Cyngor Llawn:

Ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2017/18:

1. Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar gyfer 2017/18 yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'r ddau ddosbarth o ail gartrefi (dosbarthau A a B) fel a ddiffinnir yn Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998.
2. Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt yn 2017/18 yng nghyswllt eiddo gwag (dosbarth C).

Ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2018/19:

3. Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar gyfer 2018/19 ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
4. Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 50% ar ail gartrefi dosbarth B ar gyfer 2018/19, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
5. Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 50% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy ar gyfer 2018/19, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r Cabinet yn darparu argymhelliad i'r Cyngor ar y penderfyniad i godi premiwm treth cyngor ar ail gartrefi ac ar eiddo gwag hir dymor. Cyn argymell, mae'r Cabinet wedi pwyso a mesur effaith cyflwyno Premiwm ar yr holl rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol, ac wedi cloriannu yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, a penderfynodd y byddai Premiwm o 50% yn lefel teg i'w argymell. Rhaid i'r Cyngor wneud ei benderfyniad cyntaf i godi premiwm treth cyngor ar "ail gartrefi" o leiaf un flwyddyn cyn dechrau'r

flwyddyn ariannol berthnasol. Felly, cyn codi premiwm ar ail gartrefi o 2018/19 ymlaen, bydd raid i'r Cyngor llawn wneud penderfyniad cyn 31 Mawrth 2017.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Datganwyd buddiant gan y Cynghorwyr canlynol:
Cynghorydd Peredur Jenkins – berchen ar eiddo personol a rhentu eiddo busnes
Cynghorydd Dyfrig Siencyn – berchen ar ail eiddo
Cynghorydd Mandy Williams-Davies – oherwydd bod ei gŵr wedi etifeddu tŷ gwag ar ôl ei rieni

Roedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac fe adawsant y cyfarfod.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â gofynion arweiniad statudol yn ystod Hydref 2016 ac adroddwyd ar y canlyniadau yn yr adroddiad.

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol a cyflwynwyd argymhellion y Grŵp Ymchwiliad o'r Pwyllgor Craffu hwnnw i gyfarfod y Cabinet.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 22 Tachwedd 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **7 Rhagfyr 2016** |

**PWNC**

Eitem 9 :ETHOLAETHAU SENEDDOL

**PENDERFYNIAD**

Derbyn cynigion y Comisiwn ar gyfer etholaeth seneddol Ynys Môn ac Arfon;
b) Anghytuno gyda chynigion y Comisiwn ar gyfer etholaeth De Clwyd a Gwynedd gan gyflwyno cynigion eraill fyddai'n cadw ffiniau'r sir yn gyflawn ond gan hefyd gynnwys ardaloedd tebyg o ran diwylliant ac ieithwedd i gael y niferoedd angenrheidiol yn yr etholaeth fel y nodir yn yr adroddiad;
c) Pwyso ar y Comisiwn i arddel enwau Cymraeg yn unig ar gyfer etholaethau yng Nghymru;
ch) Gwneud awgrymiadau ar gyfer enwau priodol i'r etholaethau yng Ngwynedd megis Gwynedd Uwch Conwy, sydd yn hen enw hanesyddol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er ymateb ymgynghoriad  y Comisiwn Ffiniau i Gymru  ar eu cynigion ar gyfer newid etholaethau seneddol yng Nghymru.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys  yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod a gwahoddwyd yr holl aelodau i gyflwyno unrhyw sylwadau cyn iddo dderbyn ystyriaeth.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 22 Tachwedd 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **7 Rhagfyr 2016** |

## PWNC

Eitem 10 :YMGYNGHORIAD AR DDYFODOL Y GWASANAETH TÂN

## PENDERFYNIAD

Cynnig y sylwadau a nodir yn rhan 4 o'r adroddiad mewn ymateb i ymgynghoriad y Gwasanaeth Tân, gan hefyd awgrymu i gynghorau eraill y byddai'n fuddiol efallai cael pwyllgor craffu ar y cyd i graffu'r gwasanaeth tân er mwyn gallu dod i farn am y flaenoriaeth gymharol y dylid ei roi i gais am adnodd ychwanegol.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ymateb i ddogfen ymgynghorol " Gwasanaethau tân ac achub fforddiadwy ar gyfer Gogledd Cymru" gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac yn arbennig y bwriad i gynyddu'r gofyn ariannol ar gynghorau dros y blynyddoedd i ddod.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 22 Tachwedd 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **7 Rhagfyr 2016** |

## PWNC

Eitem 11 :ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

## PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 22 Tachwedd 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **7 Rhagfyr 2016** |

## PWNC

Eitem: 12 ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET TAI, GOFAL CWSMER, LLYFRGELLOEDD, AMDDIFADEDD A CHYDRADDOLDEB

## PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.